# CYFARFOD CYNGOR BRO - COFNODION

**Dydd Mawrth 24ain Mehefin 2025 – 6:30yh**

**Neuadd Goffa, Llanfairpwll**

**Presennol:**

| **Ward Braint** | | **Ward Gwyngyll** |
|---|---|---|
| Stephen Edwards (Cadeirydd) | | Gareth Cemlyn Jones |
| Alun Jones | | Gwynfor Parry |
| Ian Roberts | | John Roberts |
| Glesni Parry | | Medwyn Roberts |
| | | Meirion Jones |
| | | Alys Moules Jones |
| **Cynghorwr Sirol:** | Sonia Williams | |
| **Clerc:** | | |

| **1.0** | **Ymddiheuriadau** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|
| | Bethan Williams, Gillian Morris (Clerc)<br>**Cynghorwyr Sirol** - Robin Williams, Dyfed Jones | | |
| **2.0** | **Datganiadau o Ddiddordeb** | | |
| | | | |
| **3.0** | **Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 3.1 | **Cyngor Bro**<br>• Hyfforddiant – Rhaid i bawb gael hyfforddiant statudol. Hyfforddiant arbennig i IW.<br>• Arwydd Gorsaf Drennau – IG yn cyfarthrebu gyda Trafnidiaeth i Gymru.<br>• Cynllun Gweithredu – Prif amcanion Y Cyngor ar gyfer 2025/2026.<br>• Ceisiadau cynllunio – Meirion Jones wedi cael ei benodi fel swyddog cynllunio o fewn y Cyngor Bro i gydweithio gyda'r Clerc. | Clerc | Gorffennaf 2025 |
| 3.2 | **Amgylchedd ac Eiddo**<br>• Fynwent Newydd – Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. Clerc i geisio am ail ddyfynbris.<br>• Traffig Llanfairpwll – Cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal 02/07/2025 yn Neuadd Goffa Llanfairpwll. | Clerc | MFAPH |
| 3.3 | **Cyllid**<br>• Benthyciad Clwb Bowlio | Clerc | MFAPH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Ceisio am grant refeniw i gyflogi unigolyn i chwilio am grantiau ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill. | | |
| 3.4 | **Neuadd Goffa**<br>• Lôn Minffrwd – Parry Davies Clwyd Jones am weithredu gyda diddymu y cytuneb – Wedi derbyn ymateb gan y cyfreithwyr yn datgan bod y mater yn nwylo cyfreithwyr perchennog y ffordd.<br>• Polisiau<br>• Cynllun Busnes | Clerc | MFAPH |
| 3.5 | **Y Fynwent**<br>• Fynwent Newydd –Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. Clerc i geisio am ail ddyfynbris.<br>• Clerc i gydweithio gyda Gwynfor Parry i ddelio gyda'r ymgymerwyr. | | |
| **4.0** | **Pwyllgorau Allanol - Adroddiadau er gwybodaeth**. | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>• Tŵr Marcwis -Cyfarfod wedi ei gynnal I drafod problemau ynghylch mynediad i'r maes parcio gwaelod a hefyd y posibilrwydd o arwyddion twristiaeth Brown ar gyfer y safle. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus I ddod ar restr lleoliadau mae corff "Cruise Wales" yn ei cymeradwyo ar gyfer pobl sy'n ymweld ar fordeithiau a Chaergybi<br>• Tafarn Penrhos Arms -Fel mae'n debyg fod rhai wedi sylwi, mae yna weithgarwch o'r diwedd yn y Penrhos arôl misoedd lawer o'r lle yn cychwyn mynd a'I ben iddo. Dyfed wedi siarad hefo un o'r cyfarwyddwyr yn ddiweddar ac mae dros £250,000 yn cael ei wario ar wella y tu mewn a'r tu allan a'r gobaith y bydd yn agor ddiwedd Gorffennaf/dechrau Awst. Mwy o fanylion I ddod fel mae'r Gwaith yn mynd rhagddo.<br>• Llys Eilian - Disgwyl diweddariad.<br>• Cynllunio - Ddim wedi cael diweddariad ar y cais Refail Goch, ddim yn meddwl fod y swyddogion wedi gwneud penderfyniad eto.<br><br>**Cyfarfod Fforwm Gyswllt –** Gwahoddiad i pawb i ymuno yn cyfarfod mis nesaf, 17/07/2025 yng Nghaffi Stesion, Llanerchymedd.<br>**Clwb Bowlio -** Tim dan 18 wedi cael llwyddiant yng Ngymru | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cystadleuaeth er Cof am Jim Evans 13/07/2025, gwahoddiad i cynghorwyr y Cyngor Bro fynychu. | | |
| **5.0** | **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro 20.05.2025** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 5.1 | Stephen Edwards yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, John Roberts yn eilio. | | |
| **6.0** | **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Arbennig Cynllunio 03.06.2025** | | |
| 6.1 | Clerc i yrru confodion. | | |
| **7.0** | **Cyfrifon a Thaliadau Mehefin2025** | | |
| 7.1 | • Awdurdodwyd i wneud y taliadau. | | |
| **8.0** | **Ceisiadau Cynllunio** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| **8.1** | Siop Uchaf, Lôn Dryll, Llanfair Pwllgwyngyll | | |
| **9.0** | **Penderfyniadau Cynllunio** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | Dim | | |
| **10.0** | **Trafod** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 10.1 | **Refail Goch, Llanfairpwll**<br>• Gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Cyngor Mon – ynghylch Refail Goch – GCJ yn siomedig nad oedd y wybodaeth wedi cael ei gyrru dros y penwythnos neu ddydd Llun.<br>• Medwyn Roberts yn diolch i Meirion Jones am lythyr gwych i'r adran cynllunio.<br>• Siomedig gyda ymateb y Cyngor Sir.<br>• Sonia Williams yn datgan gan nad oedd neb wedi cwyno am y cais fe dynwyd dyfed y cais o'i alw i mewn yn ol.<br>• Camddealltwriaeth yn y Cyngor Bro gyda'r ail gais.<br>• Cyngor Sir ddim wedi llythyru/cymdogion heb eu derbyn.<br>• Dim wedi ei wneud i warchod y hysbyseb rhag y tywydd.<br>• Pobl lleol ddim yn defnyddio y maes parcio at diben chwilio am hysbysebion cynllunio, dim yn dderbyniiol lle mae'r arwyddion.<br>• Sonia Williams wedi cwyno ir deilydd portfolio.<br>• Materion cynllunio angen fod yn uwch i fynu ar agenda y cyngor bro.<br>• Os ydi'r cynghorwyr sir yn galw y cais i mewn bod y penderfyniad yna yn aros fel hynny.<br>• Cynnig 1 ynglyn ar ffordd mae'r Cyngor Bro yn deilio gyda ceisiadau cynllunio– aros fel yr ydym ni.<br>• Cynnig 2 Penodi swyddog cynllunio o fewn y cyngor bro er mwyn cydlunio ymatebion, Meirion Jones yn gwirfoddoli. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.2 | **Cynllun i achub plasty lled-adfeiliedig yn rhan o gais 'galluogi' i adeiladu 25 o dai**<br>• GCJ yn tynnu y mater i sylw y cyngor bro.<br>• Trafodwyd i'r Cyngor Bro yrru llythyr i'r Cyngor Sir a'r cynghorwyr Sirol am ddiweddariad gydag Aber Braint. | MJ/Clerc | MFAPH |
| 10.3 | **Trefn Archebu**<br>• Clerc wedi gyrru gohebiaeth o'r drefn archebu, pawb yn cytuno. | | |
| 10.4 | **Cyfarfod Cyhoeddus**<br>• Trafodwyd strwythyr y cyfarfod.<br>• Canolbwyntio ar 5 diben sef:<br>• Gorr-yrru, lle a phryd<br>• Parcio<br>• Parcio o amgylch yr ysgol<br>• Croesffyrdd<br>• Llinnellau melyn | Clerc | MFAPH |
| 10.5 | **Sedd Wâg**<br>• Ben Perkins wedi penderfynu peidio derbyn y sedd wag oherwydd mae eisiau gwella ei Gymraeg yn gyntaf.<br>• SE ac IR yn cadarnhau o dan y ddeddf nad oes rhaid i'r person llwyddiannus fod gyda'r gallu i ddeall na siarad y iaith Gymraeg.<br>• Clerc wedi anfon hysbyseb i Papur Menai ynglŷn â'r sedd.<br>• Trafodwyd y bydd yn rhaid i'r agenda a'r cofnodion fod yn y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg. | Clerc | MFAPH |
| 10.6 | **Adroddiad Y Gors**<br>• Clerc wedi cysylltu gyda Dafydd Gwynne i'w wahodd i gyfarfod gyda'r cyngor, hyd yma heb gael ymateb.<br>• SE wedi cysylltu gyda Dafydd Gwynne hefyd, dim ymateb hyd yma.<br>• MJ yn datgan ei fod yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Bro i gynnig cymorth helpu gyda'r broses.<br>• Dim diweddariad gan y grŵp datblygu.<br>• Diweddariad Ariannol gan Medwyn Roberts, trafodwyd enw y cyfrif banc sef Cronfa Datblygu Pentref Llanfairpwll sydd yn cwmpas yr ardal chwarae, pafiliwn ac y gors. Rhai aelodau ddim yn cytuno gyda hyn ac eisiau newid i Grŵp Datblygu Y Gors. Fe fydd yn rhaid trafod ymhellach gyda grŵp y gors. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Clerc i ysgrifennu at y grwp unwaith eto i drefnu cyfarfod.<br>• Nododd Medwyn Roberts ei fod wedi gwneud cais grant Balchder Bro oedd yn cynnwys Gwyl Go Go Goch, Arwyddion Treftadaeth, Marchnad Nadolig. | | |
| 10.7 | **Gofalwr**<br>• Derbyniwyd lythyr ymddiswyddiad gan Ifan Williams a bydd yn gorffen yn ei swydd ddiwedd mis Gorffennaf.<br>• Trafodwyd i hysbysebu y swydd mor fuan a phosib. | | |
| 10.8 | **Oriau Y Clerc**<br>• Dechreuwyd trafodaeth ond gohiriwyd oherwydd nad oedd y Clerc ddim yn bresennol. | | |
| | Cynhelir y cyfarfod nesaf – 15fed Gorfennaf 2025 am 6.30yh | | |
| **** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU **** | | | |